**Bwrdd Pensiwn RhCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ar-lein ddydd Llun, 31 Ionawr 2022 am 10.00am.

## Bwrdd Pensiwn RhCT - Aelodau yn bresennol: -

Yr Athro Hugh Coombs, Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
Ms Sindy Absalom - Cynrychiolydd yr Aelodau
Rob Whiles - Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)
David Francis - Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

## Swyddogion yn bresennol:-

Mr I Traylor, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
Ms Y Keitch, Uwch Gyfrifydd Rheoli'r Gronfa Bensiwn a'r Trysorlys
Mrs S Handy – Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau
Ms G Penning – Arweinydd Carfan (Budd-daliadau)

**24 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod olaf Bwrdd Pensiwn RhCT ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-22.

**25 DATGANIAD O FUDDIANT / GWRTHDARO BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda. Aeth y Cadeirydd ati i atgoffa'r aelodau o gyfrinachedd y trafodion.

**26 COFNODION CYFARFOD BWRDD PENSIWN RHCT A CHOFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN**

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT ar 15 Tachwedd 2021 eu **CYMERADWYO** yn rhai cywir.

**27 Materion sy'n Codi:**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y diweddariadau canlynol i Aelodau'r Bwrdd o ganlyniad i gofnodion y cyfarfod ym mis Tachwedd 2021:

- Tudalen 4: Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion fod diweddariad i'r

oedran pensiwn statudol;
- Tudalen 4: Cadarnhaodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys fod polisi pwrpasol Partneriaeth Pensiynau Cymru yn dal i gael ei ddatblygu;

**Aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiwn**:

- Gofynnodd Aelodau'r Bwrdd am gopi o Gyflwyniad Baillie Gifford

**Cofnodion Partneriaeth Pensiynau Cymru:**

- Cadarnhaodd yr Uwch Gyfrifydd Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys fod RhCT yng nghronfa gredyd y DU a'i fod yn monitro'r sefyllfa'n agos; a,
- Diolchodd y Cadeirydd i Sindy am gynnig ei henw fel Cynrychiolydd sy'n Aelod o Bartneriaeth Pensiynau Cymru.

**28 PANEL YMGYNGHORI – BUDDSODDI A GWEINYDDU**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad mewn perthynas â chofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghori a Buddsoddi - Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a gafodd ei gynnal ym mis Tachwedd 2021.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys
bod gwerth cyffredinol y Gronfa wedi cynyddu o £4,724 miliwn (30 Mehefin 2021) i £4,744 miliwn (30 Medi 2021). Enillion cyffredinol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Medi 2021 oedd 17.5%, gan ragori ar feincnod penodol y cynllun, sef 13.9%.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at ffigurau cyflawniad tair blynedd y rheolwyr gweithredol, ac fe'u cyfeiriwyd hefyd at y cyflwyniad Fidelity gan Baillie Gifford.

Mewn perthynas â diweddariadau McCloud, gofynnodd y Cadeirydd i Swyddog Graddedig McCloud RhCT gael ei wahodd i gyfarfod nesaf Bwrdd Pensiynau RhCT.

O ran adroddiadau gweinyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol, gofynnodd Aelodau'r Bwrdd am gylchredeg copi o'r ddogfen AD ynghylch Taliadau Pensiwn unwaith eto i Aelodau'r Bwrdd.

O ran Ansawdd Data, nododd Aelodau'r Bwrdd fod y garfan yn dal i weithio gyda CBSMT sy'n symud tuag at I-Connect.

Yna cyfeiriwyd Aelodau'r Bwrdd at y cyflawniad yn erbyn safonau gwasanaeth allweddol y Gronfa a'r weithdrefn datrys anghydfod fewnol.

Trafodwyd cyflawniad holl reolwyr y gronfa yn ogystal ag Adroddiad Cynnydd Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNWYD** cydnabod y wybodaeth sydd wedi'i diweddaru.

**29 MONITRO RISG**

Cafodd Aelodau o'r Bwrdd wybodaeth am asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, ac amlinelliad o'r mesurau rheoli sydd mewn grym.

**PENDERFYNWYD** nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

**30 CYDGYFRANNU CYMRU GYFAN**

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiynau Cymru.

**31 FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr Aelodau at yr hyfforddiant a wnaed hyd yma gan y Bwrdd a'r cynllun hyfforddi ar gyfer mis Tachwedd 2019 i fis Mawrth 2020.

Cytunodd y Bwrdd i anfon rhestr o unrhyw ofynion hyfforddi i'w hychwanegu at y rhestr yn barhaus at y Cyfarwyddwr Gwasanaeth.

Nodwyd y cynhelir y Cydbwyllgor Pensiwn ar yr 8 Mawrth.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth mewn perthynas â fframwaith gwybodaeth a sgiliau'r Bwrdd.

**32 LLYWODRAETHU - DIWEDDARIAD O RAN COVID**

Cafodd yr Aelodau sicrwydd ar lafar ynghylch y trefniadau Llywodraethu ac unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i Covid.

Hysbyswyd aelodau'r Bwrdd bod Gwasanaeth Pensiwn RhCT yn edrych i addasu dull hybrid, ac y bydd yn parhau i weithio'n rhithwir y tu hwnt i hyn.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r diweddariad.

**33 MATERION DEDDFWRIAETHOL A GWEINYDDOL**

- ***McCloud***

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y bydd diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ar y mater yma.

- ***Sgamiau Pensiwn***

Rhoddodd Arweinydd y Garfan (Budd-daliadau) drosolwg i Aelodau'r Bwrdd o'r mesurau sydd wedi'u sefydlu o ran Twyll Pensiynau.

- ***Adroddiad Adran 13 Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).***

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau

Pensiynau, Caffael a Thrafodion fod yr inc a'r adroddiad wedi'u dosbarthu i Aelodau'r Bwrdd.

**34 LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHORFFORAETHOL**

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys ddiweddariad llafar i aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â materion Llywodraethu Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chorfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad ar lywodraethu amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol.

**35 UNRHYW FATERION ERAILL**

- Arolwg y Rheoleiddiwr Pensiynau: Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd fod hyn yn dal i gael ei ohirio ac nad oedd unrhyw ddiweddariadau pellach i'w darparu.
- Atgoffwyd yr Aelodau y byddai Cydbwyllgor y Gronfa Bensiwn yn cael ei gynnal ar 8 Mawrth.
- Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd fod y Cynghorydd Caple wedi rhoi'r gorau i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ers hynny gan ei fod wedi'i benodi'n Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Y Cynghorydd Geraint Hopkins yw'r Aelod newydd o'r Pwyllgor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.46pm**

**MR H. COOMBS**
**CADEIRYDD.**